



Amddiffyn menywod a babanod gyda phigiad Imiwnoglobwlin gwrth-D

Grwpiau Gwaed

Yn union fel mae pob dod dynol yn unigryw, felly mae'r ffactorau yn eich gwaed. Gall pobl yn perthyn i un o bedwar grŵp gwaed, A, B, AB ac O, sydd yn sylweddau sydd yn cael eu cario ar gelloedd coch y gwaed.

Mae yna wahaniaeth pwysig arall yng ngwaed pobl, sef y 'ffactor rhesws', neu deip D, sef sylwedd sydd yn cael ei ddarganfod ar gelloedd coch y gwaed.

Mae'r grŵp gwaed a'r teip D yn cael eu hetifeddu gan y ddau riant.

Mae gan bobl sydd yn 'rhesws' positif sylwedd a elwir yn antigen D ar wyneb celloedd coch eu gweud, a dywedir bod y rhain yn D positif, ond nid oes gan bobl sydd yn 'rhesws' negatif yr antigen D ar eu celloedd gwaed – mae'n nhw'n D negatif.

Yn Ewrop, mae tua 85% o bobl yn D positif a 15% yn D negative.

Pan fod teip D y Rhesws mor bwysig mewn beichiogrwydd?

Mae babanod yn y groth yn etifeddu eu teip gwaed gan y DDAU riant. Mae hyn yn bwysig, oherwydd gall menywod beichiog sydd yn perthyn i'r grŵp gwaed D negatif, gario babanod sydd â gwaed D positif, ar ôl etifeddu'r ffactor gan y tad.

Fodd bynnag, mae'n bwysig sylweddoli NA fydd POB babu sydd â thadau D positif yn perthyn i'r grŵp gwaed D positif.

Mae'r brych fel arfer yn gweithredu fel rhwstwr rhwng celloedd coch y fam a'r babi tu mewn i'r groth.

Fodd bynnag, hyd yn oed mewn beichiogrwydd normal, gall symiau bach o waed y babi groesi drosoff i mewn i lif gwaed y fam.

Yr amser mwyaf cyffredin i gelloedd gwaed y babi fynd i mewn i waed y fam yw adeg y geni.

Gall ddigwydd ar adegau eraill, er enghraifft, yn ystod naturiol neu wrth derfynu beichiogrwydd, neu os bydd ymyriad yn ystod y beichiogrwydd, fel gorfod cael prawf amniosentesis neu samplu filws corionig, os ydych yn gwaedu o'r wain, neu ar ôl anaf i'r abdomen, er enghraifft ar ôl cael cwmp, ergyd i'r abdomen neu drawma o wregys diogelwch.

Os bydd unrhyw un o'r celloedd gwaed of fabi D positif yn mynd i mewn i waed menyw D negatif, bydd yn adnabod yr antigen D yng ngwaed y babi fel sylwedd tramor, a bydd yn gwrthgyrff iddo.

Gelwir hyn yn 'sensiteiddio', ac mae unrhyw beth a allai beri i'r fam gynhyrchu gwrthgyrff yn erbyn yr antigen D yn 'ddygyddiod sensiteiddio posibl'.

Fel rheol gyffredinol, ni fydd y plentyn cyntaf sy'n sbarduno'r digwyddiad sensiteiddio hyn yn dioddef unrhyw ganlyniadau anffariol, gan y bydd wedi cael ei eni yn barod erbyn yr amser y bydd y gwrthgyrff wedi datblygu.

Fodd bynnag, os bydd y fenyw yn beichiogi eto gyda babi D positif, gall gwrthgyrff groesi mewn i lif gwaed y babi ac ymosod ar gelloedd coch y gwaed y babi.

Gelwir hyn yn glefyd hemolytig y babi newydd-anedig neu HDFN.

Mae HDFN yn gallu bod yn glefyd eithaf ysgafn, ond mewn achosion mwy difrifol, gall arwain at anemia, methiant y galon, neu hyd yn oed at farwolaeth y babi.

Os bydd menyw yn mynd i feichiogi eto, a chael babi D positif, bydd y risg o gael HDFN yn gynharach ac yn fyw dyfrifol yn cynyddu, a gallai'r canlyniadau fod yn fyw difrifol.

Dyma pam mae mesur ataliol megis proffylaxis gwrth-D mor bwysig.

Mae tua 65,000 o fabanod D positif yn cael eu geni i famau D negatif pob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr, a heb driniaeth ataliol, amcangyfrifir y byddai mwy na 500 of

fenywod yn cael problemau gyda'u beichiogrwydd pob blwyffyn, ac y byddai dros 30 o fabanod yn marw, a mwy nag 20 o blant yn ddiodef difrod difrifol i'r ymenydd.

Proffylacsis gydag imiwnoglobwlin gwrth-D

Mae proffylacsis yn golygu rhoi meddyginiaeth i atal rhywbeth rhag digwydd. Mae proffylacsis gwrth-D yn golygu rhoi meddyginiaeth o'r enw imiwnoglobwlin gwrth-D i atal menyw sydd â grŵp gwaed D negatif rhag cynhyrchu gwrthgyrff yn erbyn celloedd gwaed D positif, ac atal HDFN rhag datblygu mewn babi heb ei eni.

Nawr, diolch i broffylacsis gydag imiwnoglobwlin gwrth-D, gall sensiteiddio yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl rhoi genedigaeth gael ei atal i raddau helaeth.

Mae imunoglobwlin gwerth-D yn cael ei roi fel pigiad, fel arfer i mewn gyhyr y fraich uchaf (pigaid mewngyhyrol) neu weithiau, wythien waed (pigiad mewnwythiennol).

Beth yn union yw imiwnoglobwlin gwrth-D

Mae imiwnoglobwlin gwrth-D yn cael ei gynhyrchu o'r rhan glir o'r gwaed, o'r enw plasma, ac mae'n dod o wledydd y tu allan i'r DU. Fel gyda'r holl gynhyrchion gwaed, mae rhoddwyr yn cael ei drin yn ystod y broses gynhyrchu, i geisio sicrhau bod i siawns o drosglwyddo unrhyw haint yn isel iawn.

Proffylacsis gwrth-D yn ystod beichiogrwydd

a) Digwyddiadau Sensiteiddio Posibl

Mewn achos o ddigwyddiadau sensiteiddio posibl, efallai y bydd angen rhoi pigiadau ychwanegol o imiwnoglobulion gwrth-D

- Erthyliad naturiol sydd ar fin digwydd neu sydd wedi digwydd
- Beichiogrwydd ectopig
- Terfynu beichiogrwydd (erthyliad)
- Gwaedu o'r waun
- Ymyriadau obstetrig fel samplo filws corionig, amniosentesis, neu fersiwn sefallif allanol (ECV) mewn genedigaeth ffolennol

- Anaf i'r abdomen, e.e. ar ôl cwmpo, cael ergyd i'r abdomen neu ddamwain traffig

b) Proffylacsis arferol

Yn gyffredinol, mae pob menyw feichiog sy'd D negatif as sydd HEB gael ei sensiteiddio yn barod (y rhai hynny sydd â gwrthgyrff i'r antigen D) yn cael eu cynghori i gael pigiad proffylacsis gydag imiwnoglobwlin gwrth-D, ni waeth a ydynt wedi ei gael yn barod oherwydd digwyddiad sensiteiddio. Gelwir hyn y proffylacsis gwrth-D cyn-geni arferol, neu RAADP, ac mae'n cael ei roi naill ai drwy:

- un pigod o 1500IU rhwng 28ain a'r 30ain wythnos o'r beichiogrwydd, neu
- dau bigiad sydd of leiaf 500IU, un yn yr 28ain wythnos, a'r llall yn y 34ain wythnos o'r beichiogrwydd

Proffylacsis gwrth-D ar ôl rhoi genedigaeth

Ar ôl rhoi genedigaeth, bydd grŵp gwaed eich babi yn cael ei brofi. Os canfyddir bod eich babi yn D positif, byddwch yn cael pigiad imiwnoglobwlin gwrth-D arall, yn ddelfrydol o fewn 3 diwrnod ar ôl rhoi genedigaeth, er mwyn iddo fod yn effeithol. Gelwir hyn 'proffylacsis ar ôl geni'.

Os nad yw grŵp gwaed y babi wedi cael ei brofi, neu os oes unrhyw amheuaeth ynghylch y canlyniad, yna dylech dderbyn pigiad gwrth-D.

Ydy pob menty feichiog D negatif angen proffylacsis?

Efallai na fydd y driniaeth hon yn angenrheidiol mewn rhai amgylchiadau:

- Os ydych wedi dewis cael eich strileiddio ar ôl yr ededigaeth, er y gallai'r pigiad ddal i gael ei gynnig i chi fel mater o drefn
- Os ydych yn sicr bod tad y plentyn yn D negatif
- Os ydych chi'n sicr na fyddwch yn cael pleantyn arall ar ôl y beichiogrwydd presennol
- Os yw eich clinig cyn geni yn cynnig prawf sgrinio sy'n edrych ar DNA eich babi yn eich gwaed, sy'n gallu dangos o yw grŵp gwaed y babi yn D negatif

Beth ddyllyn i ei wneud nesaf?

Os ydych yn feichiog, ac wedi cael gwybod bod eich grŵp gwaed yn D negatif, dylai'r sawl sy'n gyfrifol am eich gofal cyn-genï (bydwraig, obsetregydd neu feddyg teulu) drofod proffylacsis gwrth-D gyda chi, ac egluro'r dewisiadausydd ar gael, fel y gallwch wneud dewis gwybodus am driniaeth.

Proffylacsis gwrth-D ar ôl cael erthyliad naturiol, ar ôl terfynu beichiogrwydd neu os ydych yn dioddef marw-enedigaeth

Mae colli unrhyw feichiogrwydd, am ba bynnag reswm, yn drawmatig i bawb sydd ynghlwm, ac mae yna lawer o bryderon yn dilyn amser mor anodd.

Fodd bynnag, mae dal yn bwsig eich bod yn derbyn pigiad imuwnoglobwlin gwrth-D, er mwyn lleihau'r risg o sensiteiddio a problemau os byddwch yn disgyn yn feichiog yn y dyfodol.

Mae hyn yn wir hyd yn oed pan nad yw'n bosibl penderfynu ar grŵp gwaed y babi. Dylai eich bydwraig, nyrs neu feddyg drofod proffylacsis gwrth-D gyda chi, fel eich bod yn gallu gwneud dewis gwybodyus am eich triniaeth.

Yn gyffredinol, mae pigiad gwrth-D yn cael ei gynghori ar gyfer:

- Unrhyw fenyw sy'n cael triniaeth feddygol neu weithdrefn lawfeddygol ar gyfer erthyliad naturiol (gan gynnwys beichiogrwydd molar)
- Unrhyw fenyw sy'n cael triniaeth feddygol neu weithdrefn lawfeddygol ar gyfer beichiogrwydd ectopig
- Unrhyw fenyw sy'n cael triniaeth feddygol neu weithdrefn lawfeddygol ar gyfer terfynu beichiogrwydd (cael erthyliad)
- Ar ôl cael diagnosis o farwolaeth yn y groth ac unwaith eto, ar ôl geni'r babi.

Fodd bynnag – os oes amheuaeth, peidiwch â bod ofn GOFYN!

Dewisiadau'r GIG

www.nhs.co.uk/conditions/Rhesus-disease/Pages/Introduction.aspx

Rhagor o Wybodaeth

Os oes gennych gwestiynau am yr wybodaeth yn y daflen hon, neu os oes unrhy beth eich poeni chi, gofynnwch i'ch meddyg neu'ch bydwraig.

Ffynonellau ychwanegol o wybodaeth

Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy am drallwysiad gwaed ac â mynediad i'r rhyngwryd, efallai y byddwch yn ystiried y gewfannau canlynol yn ddefnyddiol:

Gwasanaeth Gwaed Cymru
www.gwaedcymru.org.uk

UK Transfusion Services
www.transfusionguidelines.org.uk

Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG
www.blood.co.uk

Os hoffech gopïau ychwanegol o'r daflen hon ac am unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â Gwasanaeth Gwaed Cymru ar 01443 622126

Cydnabyddiaethau i Wae a Thrawsblaniadau'r GIG an gynnwys gwreiddiol daflen hon.



Welsh Blood Service
0800 252266
welshblood.org